

# DIGWYDDIADUR

GWEITHGAREDDAU CYFFREDINOL



## SYMUD YMLAEN AC ADFER O'R PANDEMIG

Mae gwrandio ar blant a chadw plant ac oedolion sydd mewn perygl yn ddiogel yn greiddiol i raglen eang sy'n cael ei chynnal ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer yr Wythnos Genedlaethol Diogelu, sy'n dechrau ar 14 Tachwedd 2022. Mae'r rhaglen wedi'i chydlynu gan CWMPAS a CYSUR, y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, ac mae wedi'i chynllunio mewn ymateb i rai o'r heriau y mae plant ac oedolion sydd mewn perygl yn eu hwynebu ar eu taith wrth adfer o bandemig COVID-19.

Un o uchafbwyntiau'r wythnos yw lansio a dathlu adnodd hyfforddiant diogelu ac animeiddiad fideo ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Bydd y digwyddiad hwn yn cael ei gynnal yn Stadiwm Parc y Scarlets yn Llanelli. Mae'r animeiddiad fideo wedi'i greu gan blant a phobl ifanc o Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys a bydd yn cael ei lansio'n ffurfiol gan Gomisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes.

Yn ystod yr wythnos, byddwn hefyd yn cynnal ystod o ddigwyddiadau, gan gynnwys cynadleddau a gweminarau, a fydd yn ceisio codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio ar blant ac oedolion mewn perygl a'u hamlygu. Mae hyn yn cynnwys cynhadledd amlasiantaeth ar gam-drin domestig sy'n cael ei chynnal gan Heddlu Dyfed-Powys, gweminar yn ailedrych ar rai o'r themâu sy'n gysylltiedig ag adolygiad Ymgyrch Jasmine i esgeuluso pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a digwyddiad wedi'i anelu'n benodol at ysgolion a staff addysg i hyrwyddo iechyd a lles emosiynol cadarnhaol plant ar ôl y pandemig. Mewn gweminarau eraill, byddwn hefyd yn dysgu o adolygiadau achos gyda phwyslais ar ddiogelu plant sy'n byw gyda gofalwyr maeth, mabwysiadwyr a gwarcheidwaid arbennig, a nodi pam mae'n rhaid i ymarferwyr a rheolwyr "feddwl am y teulu" bob amser ac ystyried yr oedolyn yn ogystal â'r plentyn.

Cefnogir y rhaglen ranbarthol gan ddigwyddiadau cenedlaethol a gynhelir ar draws Cymru gyfan. Mae hyn yn cynnwys lansio safonau hyfforddi amlasiantaeth newydd sy'n cael eu harwain gan Gofal Cymdeithasol Cymru a digwyddiad sy'n cael ei gynnal gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol mewn cydweithrediad â'r Uned Atal Trais ar lunio dyfodol diogelu yng Nghymru.

## RHANBARTHOL

**DRWY'R  
WYTHNOS**

**GWEFAN: Gwybodaeth a Newyddion**

Rhannu adnoddau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â digwyddiadau a themâu rhanbarthol

**DRWY'R  
WYTHNOS**

**Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL: Hyrwyddo a Rhannu Gwybodaeth**

Rhannu negeseuon allweddol sy'n gysylltiedig â'r thema 'Symud ymlaen ac adfer ar ôl y pandemig', a hyrwyddo digwyddiadau rhanbarthol.

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2022

# DIGWYDDIADUR

DYDD LLUN, 14 TACHWEDD



## CENEDLAETHOL

### Lansio'r Safonau Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol

Llywodraeth Cymru, 10am i 11am, Microsoft Teams

Bydd Julie Morgan AC yn cyflwyno lansiad Safonau Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol cyntaf Cymru.

Bydd panel o arbenigwyr diogelu o bob rhan o Gymru yn ymuno â'r Dirprwy Weinidog. Bydd y digwyddiad rhithwir, a gynhelir gan ddefnyddio Teams Live, yn cael ei gadeirio gan Jane Randall, Cadeirydd Bwrdd Diogelu An-nibynnol Cenedlaethol Cymru.

10:00AM

Bydd y safonau'n nodi'r disgwyliadau o ran gwybodaeth, sgiliau, agweddau a gwerthoedd ar gyfer pobl sy'n gweithio gydag oedolion a phlant a allai fod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu niweidio neu eu hesgeuluso ac maent yn cynrychioli carreg filltir arwyddocaol yn natblygiad ymarfer diogelu yng Nghymru.

Bydd y cadeirydd yn arwain panel o arweinwyr diogelu o'r sectorau statudol a gwirfoddol i drafod sut y bydd y safonau diogelu yn gwella ymarfer. Bydd Lance Carver, Cadeirydd Bwrdd Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg, hefyd yn siarad a chyflwyno'r safonau.

[Ymunwch â'r digwyddiad lansio rhithwir](#)

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

TRWY'R  
DYDD

HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2022

# DIGWYDDIADUR

DYDD MAWRTH, 15 TACHWEDD



## RHANBARTHOL

**GWEMINAR: Diogelu Plant sy'n byw gyda Gofalwyr Maeth, Mabwysiadwyr a Gwarcheidwaid Arbennig: Dysgu o Adolygiadau Achos 2007–2019**

**9:45AM**

Cyflwynwyr: Yr Athro Hedy Cleaver a Wendy Rose OBE

9.45am i 12.45pm, Microsoft Teams

[More information](#)

**GWEMINAR: Ymgyrch Jasmine**

Cyflwynwyr: Margaret Flynn, Margaret Rooney

**2:00PM**

Gwesteion ar y panel: Jill Patterson, Claire Aston, Loraine Brannan  
2pm i 4pm, Microsoft Teams

[More information](#)

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**TRWY'R**

**DYDD**

**HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH**

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2022

# DIGWYDDIADUR

DYDD MERCHER, 16 TACHWEDD



## CENEDLAETHOL

10:00AM,  
1:30PM

### GWEMINAR: Llunio Dyfodol Diogelu yng Nghymru: Canfyddiadau o Brifysgol John Moores Lerpwl

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru, mewn partneriaeth ag Uned Atal Trais Cymru

10am i 12.30pm a 1.30pm i 3pm drwy Microsoft Teams

[More information](#)

## RHANBARTHOL

09:00AM

### GWEMINAR: “Cadw’r Teulu mewn Cof – Ystyriwch yr Oedolyn, Ystyriwch y Plentyn: Gweminar Diogelu”

Cyflwynydd: Yr Athro Michael Preston-Shoot  
Microsoft Teams 9am i 11am

[More information](#)

4:30PM

### GWEMINAR: Hybu Iechyd Meddwl a Llesiant Cadarnhaol Plant a Phobl Ifanc ers Pandemig COVID-19

Microsoft Teams: 4.30pm i 6.30pm  
Cyflwynwyr: Gail Morris a Steve Lloyd

[More information](#)

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

TRWY'R  
DYDD

### HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2022

# DIGWYDDIADUR

DYDD IAU, 17 TACHWEDD



## RHANBARTHOL

### HYBRID: Cynhadledd Cam-drin Domestig Amlasiantaeth Heddlu Dyfed–Powys

Mae Heddlu Dyfed–Powys yn cynnal Cynhadledd Cam-drin Domestig amlasiantaeth ddydd Iau 17 Tachwedd ym mhencadlys yr heddlu yng Nghaerfyrddin.

Mae'r siaradwyr yn cynnwys unigolion sydd â phrofiad byw o gam-drin domestig, a bydd cynrychiolwyr yn cael eu gwahodd i fynychu gweithdai sy'n canolbwyntio ar waith amlasiantaeth.

9:30AM

Hyd: 9.30am i 4pm

Cyrraedd a chofrestru 9.15pm.

Cyfeiriad: Pencadlys yr Heddlu, Llangynnwr, Caerfyrddin SA31 2PF

Digwyddiad wyneb yn wyneb yw hwn ond bydd opsiwn i ddeialu i mewn lle bo angen.

[More information](#)

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

TRWY'R

DYDD

HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2022

# DIGWYDDIADUR

DYDD GWENER, 18 TACHWEDD



## RHANBARTHOL

### Lansio'r Animeiddiad gyda'r Comisiynydd Plant

**Prif siaradwr: Ms Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant**

10am i 1pm, Parc y Scarlets, Parc Pemberton, Llanelli SA14 9UZ

**10:00AM**

Bydd y digwyddiad yn dathlu Wythnos Ddiogelu 2022, yn ogystal â lansiad ffurfiol y fideo hyfforddi animeiddiedig a ddatblygwyd gan bobl ifanc Canolbarth a Gorllewin Cymru.

[More information](#)

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**TRWY'R**

**DYDD**

HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

**A oes gennych chi ddiddordeb mewn archebu lle ar gyfer unrhyw un o'r digwyddiadau hyn? [Cliciwch yma](#) i wneud cais am le ar gyfer unrhyw un o'n digwyddiadau rhanbarthol gan ddefnyddio'n ffurflen archebu ar-lein!**